Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau



# Sefydliadau sy'n gallu helpu gyda llifogydd

Met Office

Mae'r Swyddfa Dywydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau sy'n helpu awdurdodau i baratoi ac ymateb i argyfyngau sydd wedi'u hachosi neu eu dylanwadu gan y tywydd. Maen nhw'n darparu rhagolygon tywydd a rhagolygon am donnau ac ymchwydd y llanw yn sgil stormydd, ac mae hynny'n helpu i gefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ragweld ac ymateb i lifogydd yng Nghymru.

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

NEWPORT CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS CASNEWYDD

RHONDDA CYNON TAF

Nhw sy'n rheoli llifogydd o gyrsiau dŵr, dŵr wyneb a dŵr daear. Maen nhw'n rhoi cyngor ac arweiniad i'r rhai sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd ac yn helpu i sefydlu canolfannau gorffwys i'r rhai sydd wedi gorfod gadael eu cartrefi, gan drefnu llochesi dros dro neu lety i bobl sydd heb unman arall i fynd. Maen nhw'n delio â materion iechyd amgylcheddol, er enghraifft halogiad a llygredd.

Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru
North & Mid Wales Trunk Road Agent

Asiant Cefnffyrdd De Cymru
South Wales Trunk Road Agent

Traffig Cymru
Traffic Wales

Mewn llifogydd, nhw sy'n gyfrifol am gadw'r ffyrdd a draeniau'r ffyrdd yn glir ac am gyhoeddi rhybuddion traffig mewn perthynas â chyfyngiadau ar ffyrdd, cau ffyrdd a dargyfeiriadau.

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Mae'r sefydliad hwn yn rhagweld llifogydd ac yn cyhoeddi rhybuddion llifogydd, gan roi amser i'r rhai a allai gael eu heffeithio baratoi. Nhw sy'n gyfrifol am adeiladu, cynnal a gweithredu amddiffynfeydd rhag llifogydd. Maen nhw'n gwneud mwy na dim ond codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd – maen nhw hefyd yn helpu i alluogi pobl i gymryd camau effeithiol i liniaru effaith llifogydd ar eu cartrefi a'u cymunedau.

Heddlu De Cymru South Wales Police

Heddlu Gogledd Cymru
North Wales Police

Heddlu Police
Dyfed Powys

Gwent Police

Eu prif rôl yw achub bywydau. Nhw sy'n gyfrifol am gydlynu'r gwasanaethau brys yn ystod llifogydd mawr ac maen nhw'n cefnogi pobl i adael eu cartrefi.

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru
Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru
South Wales
Fire and Rescue Service

Mae ganddyn nhw rôl achub bywyd, yn achub pobl ac anifeiliaid o'u cartrefi. Lle bo'n briodol, gallant gynorthwyo pobl i bwmpio llifddwr o'u cartrefi gan ddefnyddio personél ac offer y gwasanaeth tân.

Eu prif rôl yw achub bywydau, gan roi triniaeth, sefydlogi a chynnig gofal ble mae llifogydd wedi taro.

## Gwasanaethau cymdeithasol



Adrannau o fewn awdurdodau lleol – maen nhw'n gyfrifol am ofalu am bobl oedrannus, fethedig a bregus o bob oed. Maen nhw'n helpu'r rhai sydd mewn angen sydd wedi'u heffeithio gan lifogydd i gael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt ac yn darparu cymorth hirdymor i helpu dioddefwyr i adfer wedi llifogydd.

Dŵr Cymru
Welsh Water

HAFREN
DYFRDWY
severn dee

Pan fydd glaw anarferol o drwm, gall systemau draenio gael eu gorlwytho, sy'n gallu arwain at lifogydd. O dan yr amgylchiadau hyn, gall carthion heb eu trin arllwys ar strydoedd a gerddi. Bydd cwmnïau dŵr yn cynorthwyo lle bo modd i leihau faint o ddŵr sy'n dianc o'r system a phan fydd y llifogydd wedi cilio, byddant yn helpu i glirio ardaloedd ble mae carthion wedi'u dyddodi.